



---

# Addysg Ddewisol Gartref (EHE)

---

Nichola Jones  
Pennaeth Cynhwysiant ac Anableddau

## CYFLWYNIAD

Addysg Ddewisol Gartref (EHE) yw lle mae rhiant yn dewis cymryd cyfrifoldeb personol dros ddarpariaeth addysg eu plentyn, gan gynnwys cynllunio a chyflwyno rhaglen addysgol. Cyfeirir at hyn yn aml fel “Addysg Ddewisol Gartref” neu “addysg heblaw yn yr ysgol” fel yn Adran 7 Deddf Addysg 1996.

Mae'r brif ddyletswydd i addysgu plentyn yn gorwedd gyda'r rheini, ac mae hyn yn golygu y bydd y rhan fwyaf o blant yn mynd i'r ysgol fel rheol, ond am resymau amrywiol, bydd rhai rhieni'n penderfynu ymgymryd â'r cyfrifoldeb o addysgu eu plant tu allan i'r system ysgol.

Mae'n bwysig i chi feddwl pam eich bod yn ystyried Addysg Ddewisol Gartref. Mae addysg effeithiol yn y cartref yn gofyn am ymrwymiad ynghyd ag amynedd a dyfalbarhad, a gallai eich penderfyniad fod â goblygiadau mawr o ran dyfodol eich plentyn.

Mae Cyngor Sir Penfro (CSP) yn cydnabod ac yn parchu hawl rhieni/gofalwyr i addysgu eu plant yn y cartref ac wedi ymrwymo i weithio gyda rhieni/gofalwyr.

Ein nod yw sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael yn lleol a'ch bod yn gwybod sut i gael gafael arnynt. Mae yna nifer o rieni sydd eisiau rhywbeth gwahanol i ysgol, ac mae'r Awdurdod Lleol (ALI) yn ceisio sicrhau bod eich plentyn yn cael y cyfle gorau posibl i ddysgu, ynghyd â'r gefnogaeth orau yn ystod y cyfnod y byddant yn derbyn addysg ddewisol gartref. Bydd Awdurdod Lleol Sir Benfro yn ceisio cydweithredu â rhieni sy'n dewis addysg ddewisol gartref er mwyn hybu rhwydweithiau cyfathrebu a gweithio cefnogol o fewn a rhwng grwpiau EHE lleol ac unigolion.

O bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen cymorth arnoch i ddeall eich rôl, ac efallai hefyd y bydd angen i ni roi'r cyfle i chi gyflwyno tystiolaeth o brofiad dysgu eich plentyn a fydd yn arddangos cynnydd addysgol parhaus eich plentyn.

Bydd yr awdurdod yn adolygu ei holl arferion a gweithdrefnau addysg ddewisol gartref yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod arfer yn cael ei adolygu'n rheolaidd, a bydd yn ymgynghori â rhieni sydd wedi dewis addysg ddewisol gartref er mwyn datblygu cysylltiadau a diwallu anghenion rhieni a phlant.

Nod y llyfryn hwn yw helpu rhieni/gofalwyr sy'n ystyried addysgu eu plentyn/plant yn y cartref.

## Y FFRAMWAITH CYFREITHIOL

Mae Adran 7 Deddf Addysg 1996 yn rhoi'r hawl i rieni addysgu eu plant yn y cartref:

'Bydd rhiant pob plentyn oed ysgol gorfodol yn achosi iddo/iddi dderbyn addysg amser llawn effeithlon sy'n addas

- a) I'w oedran, dawn a gallu, ac
- b) I unrhyw anghenion addysgol arbennig a allai fod ganddo/ganddi naill ai trwy bresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol neu fel arall.

Nid oes deddfwriaeth sy'n gorfodi rhieni i hysbysu'r ALI os ydynt yn addysgu eu plant yn y cartref. Felly, ni fydd yr ALI yn gwybod am blant sydd heb erioed fynychu'r ysgol, neu sydd wedi symud i'r sir o awdurdod arall, oni bai bod y rhiant yn dewis cysylltu â'r awdurdod neu fod trydydd parti wedi hysbysu'r awdurdod.

Fodd bynnag, mae Adrannau 437 i 443 o Ddeddf Addysg 1996 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau addysg lleol i gymryd camau penodol os nad yw'n ymddangos fel petai'r plentyn yn cael ei addysgu'n briodol.

"Os yw'n ymddangos i'r awdurdod addysg lleol nad yw plentyn oedran ysgol gorfodol yn eu hardal yn derbyn addysg addas, naill ai trwy bresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol neu fel arall, mae'n rhaid iddynt gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig ar y rhieni sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhieni fodloni'r ALI, o fewn y cyfnod a nodir yn yr hysbysiad, bod y plentyn yn cael addysg o'r fath". (s437 (1))

Unig ddyletswydd gyfreithiol yr awdurdod lleol yw gweithredu lle na chredir bod plant yn derbyn addysg addas. Y tu hwnt i hyn, nid oes dim yn y Ddeddf sy'n gorfodi awdurdod lleol i fonitro darpariaeth yn rheolaidd lle mae plentyn yn derbyn addysg mewn man arall heblaw yn yr ysgol.

Os na fu'n bosibl, ar ôl cynnal ymholiadau rhesymol, bodloni'r awdurdod bod addysg amser llawn effeithlon ac addas yn cael ei darparu, mae'n bosibl i'r ALI gyflwyno Gorchymyn Presenoldeb yn yr Ysgol sy'n cyfarwyddo'r rhiant/gofalwr i sicrhau bod eu plentyn yn cael ei dderbyn i ysgol a enwir. Os yw rhiant yn methu â chydymffurfio â'r Gorchymyn Presenoldeb yn yr Ysgol, bydd ef/hi yn euog o drosedd dan adran 443 (1) o Ddeddf Addysg 1996, oni bai y profir yn ddiweddarach bod y plentyn, mewn gwirionedd, yn derbyn addysg addas mewn man arall heblaw yn yr ysgol.

Os yw'r plentyn wedi'i gofrestru mewn ysgol, ond ddim yn mynychu'n rheolaidd yn dilyn hynny, mae'n bosibl i'r ALI erlyn y rhiant dan adran 444.1 neu 444.1(a) am fethu â sicrhau bod disgybl cofrestredig yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

## CWESTIYNAU CYFFREDIN

### A yw eich plentyn yn gyndyn o fynd i'r ysgol?

Gallai fod sawl rheswm pam bod eich plentyn yn anhapus yn yr ysgol, e.e. problemau gyda disgyblion eraill, bwlio, anawsterau gyda phwnc neu athro penodol, ofn methu, cael hi'n anodd mewn ysgol Gymraeg ei hiaith, ac ati. Byddai'n ddefnyddiol trafod y materion hyn gyda'r Pennaeth, y Pennaeth Blwyddyn neu swyddog o'r awdurdod lleol cyn i chi ystyried tynnu eich plentyn o'r ysgol, oherwydd yn aml iawn, mae modd datrys yn gyflym ac yn rhwydd problemau sy'n ymddangos yn rhai amhosibl i'w goresgyn.

Mae llawer o deuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg yn symud i Sir Benfro ac mae plant yn gallu dysgu'r iaith yn haws na'u rhieni. Mae'r Gymraeg yn bwnc gorfodol a chaiff ei dysgu ar sawl lefel gwahanol. Ond os ydych yn gofidio bod hyn yn achosi problem, dylech siarad gyda'r ysgol i weld os ellir darparu cymorth ychwanegol.

Mae gan bob ysgol yn Sir Benfro bolisi gwrth-fwlio sy'n amlinellu sut mae'r ysgol yn gallu datrys problemau. Siaradwch gyda'r ysgol am y broblem gan nad yw ein hysgolion yn goddef bwlio; bydd y Pennaeth yn awyddus i wrando arnoch. Os yw eich plentyn ym mlwyddyn 10 neu 11, efallai ei fod ef/ei wedi dadrithio gyda chwricwlwm yr ysgol. Os felly, gallwch gyfarfod â'r ysgol i drafod darpariaeth wahanol neu ychwanegiadau/addasiadau i'w cwricwlwm.

### **A ydych wedi gwneud cwyn i'r ysgol a heb eich bodloni gyda'r canlyniad, neu a ydych yn anhapus gyda rhywbeth yn yr ysgol?**

Os ydych yn ystyried Addysg Ddewisol Gartref oherwydd anghytundeb gydag aelodau o staff neu lywodraethwyr yr ysgol, neu oherwydd unrhyw bryder arall, dylech drafod hyn gyda'r Pennaeth, neu gysylltu â'r Adran Addysg yn Neuadd y Sir, Hwlfordd am gymorth a chyngor.

Os nad yw hyn yn datrys y broblem, dylech anfon cwyn ysgrifenedig i gadeirydd y Bwrdd Llywodraethu. Mae'r Bwrdd Llywodraethu yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod nifer o faterion; byddant yn ceisio rhoi ymateb boddhaol i'ch cwyn.

### **Rwyf wedi penderfynu fy mod eisiau addysgu fy mhentyn gartref. Beth ddylwn i ei wneud?**

Mae Deddf Addysg 1996, Adran 7 yn nodi mai cyfrifoldeb y rhieni yw sicrhau bod eu plentyn yn derbyn addysg addas "naill ai trwy bresenoldeb yn yr ysgol neu fel arall."

Mae angen i chi hysbysu'r pennaeth yn ysgrifenedig os yw eich plentyn yn ddisgybl cofrestredig, eich bod yn bwriadu addysg eich plentyn yn y cartref a'ch bod eisiau i'r ysgol dynnu ei enw/henw o gofrestr yr ysgol. Bydd yr ysgol yn anfon copi o'ch llythyr ymlaen i'r ALI; fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol petaech yn gallu anfon copi o'ch llythyr at y rheolwr sy'n gyfrifol am Addysg Ddewisol Gartref.

Bydd yr awdurdod lleol yn anfon llythyr atoch yn cydnabod eich penderfyniad ac yn eich hysbysu y bydd Ymgynghorydd Addysg Ddewisol Gartref yn cysylltu â chi i gynnig ymweliad neu gyfarfod i drafod darpariaeth a chynnig unrhyw gyngor/gwybodaeth. Bydd gwahoddiad i'ch plentyn fynychu hefyd os ydych yn dymuno hynny. Nid oes rheidrwydd arnoch i dderbyn y cynnig hwn, ond byddem yn eich annog i wneud hynny, er mwyn ein galluogi i weithio mewn partneriaeth i sicrhau'r addysg orau i'ch plentyn.

Gall hyn helpu i ddarparu gwybodaeth neu gymorth chi, a byddai'n galluogi'r awdurdod i gyflawni ei ddyletswydd. Ar ôl unrhyw ymweliadau neu gyfarfodydd gyda chi, byddem yn llunio adroddiad a fyddai'n cynnwys unrhyw argymhellion os oes angen. Byddem hefyd yn cytuno ar unrhyw gyswllt/ymweliadau/cyfarfodydd pellach gyda chi.

Os yw eich plentyn yn aros ar gofrestr ysgol, ond ddim yn bresennol, a'n bod heb dderbyn llythyr oddi wrthy, bydd yr ysgol a Swyddog Cynhwysiant o'r Awdurdod Lleol yn ymchwilio i'r achos o absenoldeb o'r ysgol.

### A oes raid i mi fod yn athro cymwys?

Nid oes raid i chi fod ag unrhyw gymwysterau, ond mae angen i chi fod â'r amser a'r dyhead i helpu eich plentyn i ddysgu, ynghyd ag ymrwymiad a dyfeisgarwch. Nid oes angen i chi wneud yr holl 'addysgu' eich hun; gallwch gael cymorth ffrindiau a theulu neu gyflogi tiwtoriaid, ond eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod rhaglen o waith effeithlon yn cael ei darparu. Gallwch ddefnyddio ffrindiau addas neu dalu am addysgu arbenigol. Fodd bynnag, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod unrhyw diwtoriaid/athrawon yn addas i ddysgu eich plentyn/plant. Fe'ch cynghorir i sicrhau fod ganddynt wiriad DBS dilys. Fe'ch cynghorir hefyd i aros gartref pan fydd tiwtor yn addysgu eich plentyn.

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn berthnasol i blant mewn ysgolion yn unig. Mae rhai rhieni'n defnyddio'r Cwricwlwm Cenedlaethol fel arweiniad, gan ei fod yn gallu darparu fframwaith defnyddiol o ran lefelau cyrhaeddiad ar draws y pynciau. Gall hefyd helpu os yw eich plentyn yn dychwelyd i'r ysgol yn y dyfodol.

Fodd bynnag, nid oes unrhyw bynciau gorfodol. Er hynny, byddai'n ddoeth datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd, gan y bydd y rhain yn galluogi eich plentyn i ddeall meysydd eraill yn well. Mae rhai teuluoedd yn dewis cael amserlen strwythuredig; fodd bynnag, mae Addysg Ddewisol Gartref yn caniatáu hyblygrwydd, a gall dysgu ddigwydd ar unrhyw adeg ac yn unrhyw le.

Mae pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar hyn o bryd yn cynnwys Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth fel pynciau craidd, gyda Thechnoleg, Hanes, Daearyddiaeth, Celf, Cerdd, Addysg Gorfforol, Cymraeg, Iaith Dramor Fodern (o 11 oed) ac Addysg Grefyddol (oni bai bod rhieni yn arfer eu hawl i dynnu plentyn allan o'r gwersi hynny).

Mae llawer o'r llyfrau gwaith sy'n cael eu cynhyrchu'n fasnachol a sydd ar gael mewn siopau llyfrau yn seilio'u cynnwys ar y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r we hefyd yn darparu llawer iawn o wybodaeth ac adnoddau i'ch cynorthwyo.

Dyma rai pethau y gallech eu hystyried:

- Ai dyma'r dewis gorau i fy mhentyn ac a yw'r plentyn yn teimlo'n gadarnhaol am y penderfyniad?
- Ydych chi'n argyhoeddedig mai dyma'r peth gorau i'ch plentyn?
- Beth ydych chi'n bwriadu ei wneud gyda'ch plentyn/plant cyn gwneud penderfyniad?
- Efallai y bydd eich plentyn/plant yn colli ochr gymdeithasol bywyd ysgol, gwaith grŵp, cyfleusterau chwaraeon, cyfeillgarwch. Efallai yr hoffech ystyried sut fydd eich plentyn/plant yn cael mynediad i weithgareddau cymdeithasol.
- Y goblygiadau ariannol, fel llyfrau, adnoddau, ymweliadau addysgol, tiwtoriaid, arholiadau, ac ati.
- A oes gennych yr amser i'w roi i addysg eich plentyn, ac a ydych yn teimlo'n hyderus y byddwch yn gallu dysgu eich plentyn yn effeithiol?

- A oes yna gyfleoedd ar gyfer astudiaeth annibynnol a manau astudio tawel posibl?
- A oes yna gyfleoedd ar gyfer ymarfer corfforol?
- A oes gennych chi gymorth?
- Bod profiadau cymdeithasol gyda phlant eraill ar gael, oherwydd mae'n bosibl i'ch plentyn gollu ochr gymdeithasol bywyd ysgol, cyfeillgarwch, at ati.

## A oes gan eich plentyn Anghenion Addysgol Arbennig?

Mae hawl rhieni i addysgu eu plentyn gartref yn union yr un mor berthnasol os oes gan y plentyn hwnnw anghenion addysgol arbennig (AAA).

Pan mae gan blentyn ddatganiad AAA ac mae'n cael ei addysgu gartref gan y rhieni, nid yw'r datganiad yn dod i ben yn awtomatig. Gyhyd ag y caiff y datganiad ei gynnal, mae'n rhaid ei adolygu'n flynyddol, gan ddilyn y gweithdrefnau a nodir ym Mhennod 9 Cod Ymarfer AAA Cymru. Mewn nifer o amgylchiadau, bydd AAA y plentyn a nodir yn y datganiad yn ymwneud â'r lleoliad ysgol, ac mae'n bosibl bod anghenion y plentyn yn cael eu diwallu'n llawn gan y rhieni yn y cartref heb oruchwyliaeth yr ALI. Ar ôl sefydlu bod anghenion arbennig y plentyn yn cael eu diwallu heb unrhyw gymorth ychwanegol gan yr ALI, gallai fod yn briodol ystyried dileu'r datganiad, os yw'r rhieni'n cytuno â hynny. Gellir gwneud hyn yn yr adolygiad blynyddol neu ar unrhyw adeg arall.

Os yw trefniadau'r rhieni'n addas, yna caiff yr ALI ei ryddhau o'i ddyletswydd i drefnu'r ddarpariaeth a bennwyd yn y datganiad. Fodd bynnag, os yw trefniadau'r rhieni ar gyfer addysg eu plentyn yn methu â diwallu anghenion y plentyn, yna nid yw'r rhieni'n gwneud trefniadau addas ac nid yw'r ALI wedi'i ryddhau o'i gyfrifoldeb i drefnu'r ddarpariaeth yn y datganiad. Mewn rhai achosion, darpariaeth ar y cyd gan y rhieni a'r ALI fydd orau ar gyfer diwallu anghenion y plentyn.

O ran plant sy'n cael eu haddysgu gartref, nid yw Adran 324(4A) o Ddeddf Addysg 1996 yn galw am nodi enw ysgol yn Rhan 4 o'r datganiad. Dylid cael trafodaeth rhwng yr ALI a'r rhieni ac, yn hytrach na chynnwys enw'r ysgol, dylid cyfeirio yn Rhan 4 o'r datganiad at y math o ysgol y mae'r ALI yn credu sy'n briodol, gan yna nodi bod "y rhieni wedi gwneud eu trefniadau eu hunain o dan adran 7 o Ddeddf Addysg 1996". Gall y datganiad hefyd bennu unrhyw ddarpariaeth y mae'r ALI wedi cytuno i'w gwneud o dan Adran 319 i helpu rhieni i ddarparu addysg addas i'w plentyn yn y cartref.

Os ydych yn ei chael yn anodd cyfleu eich barn mewn cyfarfod, gallwch ofyn am gyngor a chymorth gan SNAP (Prosiect Cynghori Anghenion Arbennig). Gallwch gysylltu â SNAP ar 01437 768097 neu SNAP Cymru – Sir Benfro, Adeiladau'r Llys Sirol, Hawthorn Rise, Hwlfordd, SA61 2AX

## A oes raid i mi weithio oriau ysgol?

Nid yw llawn amser o reidrydd yn golygu gweithio oriau ysgol, er mae'n bosibl bod rhai rhieni eisiau darparu addysg mewn ffordd mwy ffurfiol a strwythuredig. Efallai y bydd rhieni eraill yn penderfynu ar ddarpariaeth fwy anffurfiol sy'n ymateb i anghenion eu plant. Bydd yr Ymgynghorydd Addysg Ddewisol Gartref yn gallu

cynnig cyngor cyffredinol ac awgrymiadau ynghylch adnoddau, dulliau a deunyddiau os oes angen hynny.

### **Sut ddylwn i drefnu'r addysgu a'r dysgu?**

Nid oes modd argymhell un dull neu arddull, ond byddai'n rhesymol cynnwys:

- Datblygu sgiliau rhifedd a llythrennedd addas i oed a gallu eich plentyn
- Cyfleoedd i'ch plentyn gael ei ysgogi gan ei brofiadau/phrofiadau dysgu
- Sbectwm eang o weithgareddau sy'n darparu ar gyfer diddordebau eang
- Mynediad at adnoddau a deunyddiau
- Y cyfle i ryngweithio â phlant ac oedolion eraill
- Cyfleoedd a mynediad at TG.

### **A yw'r awdurdod lleol yn gallu fy helpu gydag addysg yn y cartref?**

Nid yw'r awdurdod lleol/ysgol yn darparu unrhyw gyllid unigol unwaith y bydd plentyn wedi'i dynnu oddi ar gofrestr ysgol. Mae gan yr ALI rôl i'w chwarae sef cymryd camau penodol os daw'n amlwg nad yw plentyn yn cael ei addysgu'n briodol. Mae'r ALI yn cadw cronfa ddata o blant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref a bydd Ymgynghorydd Addysg Ddewisol Gartref yn cynnig ymweliadau i roi cyngor/cymorth ynghylch darpariaeth addysgol ar y dechrau ac eto yn y dyfodol os ydych yn parhau i addysgu gartref.

Mae'r Awdurdod Lleol yn ceisio cydweithio â rhieni i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth ac ymddiriedaeth a fydd yn diogelu canlyniadau addysgol plant.

Hoffai'r Ymgynghorydd Addysg Ddewisol Gartref ymweld/cyfarfod â chi'n flynyddol, a bydd bob amser yn darparu adroddiad a fydd yn cael ei anfon atoch yn dilyn yr ymweliad. Mae'n well gan rai rhieni ysgrifennu adroddiad neu ddarparu samplau o waith. Os ydych chi neu'r Ymgynghorydd yn teimlo bod agweddau ar y ddarpariaeth addysgol angen sylw, bydd ef/hi yn trafod hyn gyda chi gan efallai gynnig cyngor ac awgrymiadau. Bydd ef/hi hefyd yn cynnig ail-ymweld â chi gyda golwg ar helpu i wella darpariaeth eich plentyn.

Mae yna gyrff eraill a grwpiau cefnogi sy'n gallu cynnig cymorth a darperir rhestr o gysylltiadau defnyddiol yn ddiweddarach yn y llyfryn hwn.

### **Alla i newid fy meddwl?**

Gallwch wneud cais am le mewn ysgol ar unrhyw adeg a rhoi gwybod i adran Derbyniadau'r Awdurdod Lleol eich bod yn bwriadu cofrestru eich plentyn mewn ysgol. Bydd yn rhaid dilyn trefniadau Derbyn arferol yr Awdurdod Lleol. Mae'r trefniadau hyn i'w gweld yn y ddogfen Gwybodaeth Ysgol a gyhoeddir yn flynyddol gan y Cyngor Sir.



## Beth sy'n digwydd os yw'r ALI yn poeni am y ddarpariaeth?

Gwneir pob ymdrech i ddatrys problemau ynghylch y ddarpariaeth drwy drafodaeth cyn rhoi unrhyw brosesau ffurfiol ar waith. Mae'n bosibl i'r awdurdod lleol ymchwilio ymhellach os yw'n amau nad yw'r ddarpariaeth yn ddigonol. Os yw trafodaethau'n methu, byddwch yn derbyn llythyr yn amlinellu'r pryderon a'r rhesymau dros gredu bod y ddarpariaeth yn anaddas. Mae'n bosibl y bydd angen i'r awdurdod lleol gyflwyno Gorchymyn Presenoldeb yn yr Ysgol, sy'n rhoi 15 diwrnod i chi ddarparu tystiolaeth o addysg addas i'r Awdurdod. Os codir unrhyw amheuan ar unrhyw adeg ynghylch diogelwch neu les eich plentyn/plant, gellir hefyd ystyried cyfeirio'r achos yn unol â gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

### Y BROSES

1. Bydd yr awdurdod yn ceisio cydweithredu gyda chi er mwyn sicrhau bod y cyfathrebu'n adeiladol ac yn annog perthynas sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth. Pan fyddwch wedi mynegi diddordeb mewn darparu addysg ddewisol gartref i'ch plentyn/plant, bydd y Pennaeth neu'r Swyddog Cynhwysiant yn rhoi'r canllawiau hyn i chi sy'n amlinellu'r cyfrifoldebau o ddewis addysg ddewisol gartref i'ch plentyn/plant. Efallai y cewch eich cynghori i gadw'r plentyn/plant yn yr ysgol tra'ch bod yn gwneud penderfyniad i addysgu gartref.
2. Bydd gofyn i roi gwybod i'r pennaeth yn ysgrifenedig. Bydd y pennaeth yn rhoi gwybod i'r rheolwr Addysg Ddewisol Gartref yn yr awdurdod lleol ac yn darparu copi o'ch llythyr. Os nad ydych yn nodi hyn yn ysgrifenedig, bydd eich plentyn yn aros ar gofrestr yr ysgol ac mae'n bosibl y cewch eich erlyn am absenoldeb. Ar ôl derbyn eich hysbysiad ysgrifenedig gan yr ysgol, bydd yr Awdurdod Lleol yn anfon llythyr atoch yn cydnabod eich cais. Mae'r ALI yn cadw cronfa ddata o blant sy'n cael eu haddysgu gartref, ac mae modd i staff yr ALI sy'n trefnu cyrchoedd triwantiaeth gyfeirio ati. Mae hyn er mwyn sicrhau na chymerir unrhyw gamau pellach mewn perthynas â phlant sy'n derbyn addysg ddewisol gartref a all gael eu dal yn y cyrch triwantiaeth.
3. Bydd ymgynghorydd addysg ddewisol gartref yn cysylltu â chi i gynnig ymweliad neu gyfarfod o fewn y 3 mis cyntaf i'r llythyr cydnabyddiaeth. Nid oes rheidrwydd arnoch i dderbyn y cyfarfod hwn, ond byddai'r awdurdod lleol yn annog hyn, gan ein bod yn dymuno gweithio mewnartneriaeth â chi er mwyn sicrhau'r canlyniadau addysgol gorau posibl i'ch plentyn/plant. Bydd yr ymgynghorydd addysg ddewisol gartref yn trafod eich darpariaeth addysgol bresennol, ac yn cynnig cymorth a chynghor os oes angen mewn perthynas ag adnoddau, gwybodaeth, ac ati. Gallwch gysylltu â'r ymgynghorydd addysg ddewisol gartref os oes angen cynghor/arweiniad cyffredinol arnoch rhwng ymweliadau.
4. Os nad oes unrhyw bryderon ynghylch y ddarpariaeth addysgol, byddwch yn cael hysbysiad ysgrifenedig o hynny, ynghyd â chopi o unrhyw adroddiad. Bydd yr ymgynghorydd addysg ddewisol gartref yn trefnu cyswllt pellach â chi yn ôl yr angen ac efallai y bydd cydweithiwr yn dod gydag ef/hi os oes angen. Gwneir pob ymdrech i ddatrys problemau ynghylch y ddarpariaeth, os oes amheuan nad yw'r



ddarpariaeth yn ddigonol, cyn cymryd unrhyw gamau ffurfiol. Os yw'n ymddangos nad ydych yn cyflawni eich dyletswydd gyfreithiol, mae'n bosibl i'r awdurdod lleol farnu nad yw eich plentyn yn cael ei addysgu'n briodol, a chyflwyno Gorchymyn Presenoldeb yn yr Ysgol dan Adran 437 o Ddeddf Addysg 1996.

5. Os yw eich plentyn o oed ysgol gorfodol ac wedi'i gofrestru mewn ysgol arbennig, mae'n rhaid i'r ysgol hysbysu'r awdurdod lleol cyn y gellir tynnu enw eich plentyn oddi ar gofrestr yr ysgol. Os oes gan blentyn Ddatganiad Anghenion Addysgol, mae dyletswydd yr Awdurdod i gynnal y datganiad a'i adolygu'n flynyddol yn parhau, gan ddilyn y weithdrefn ym Mhennod 9 o God Ymarfer AAA Cymru.
6. Os ydych yn dewis darparu cyfran o addysg y plentyn neu holl addysg y plentyn drwy gael mynediad i gyrsiau coleg addysg bellach, byddai'r ymgynghorydd addysg ddewisol gartref yn awyddus i gynnal cyswllt gyda chi a'r coleg tra bod y plentyn o oed ysgol statudol.
7. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol dan adran 175(1) o Ddeddf Addysg 2002 i ddiogelu a hybu lles plant. Caiff hyn ei atgyfnerthu ymhellach gan Adran 11 o Ddeddf Plant 2004 sy'n rhoi dyletswydd ar bersonau a chyrrff allweddol i sicrhau eu bod yn ystyried yr angen i ddiogelu a hybu lles plant wrth ymgymryd â'u swyddogaethau. Fel yn achos plant sy'n cael eu haddysgu mewn ysgol, mae'n bosibl i faterion diogelu neu amddiffyn plant godi mewn perthynas â phlant sy'n cael eu haddysg gartref. Os oes unrhyw bryderon ynghylch diogelu neu amddiffyn plant yn dod i'r amlwg wrth ymgysylltu â phlant a theuluoedd, caiff y pryderon hyn eu cyfeirio at y gwasanaethau priodol gan ddefnyddio protocolau cyfeirio lleol penodol.

## CYSWLLT GYDA'R GWASANAETH ADDYSG DDEWISOL GARTREF

Mae'r ALI wedi ymrwymo i ddatblygu perthynas effeithiol a chadarnhaol gyda rhieni sy'n darparu addysg yn y cartref. Bydd yr ymgynghorydd addysg ddewisol gartref yn cysylltu â chi o fewn 3 mis ar ôl tynnu eich plentyn oddi ar gofrestr ysgol. Bydd ef/hi yn cynnig ymweliad cartref neu os yw'n well gennych, cyfarfod mewn lleoliad sy'n gyfleus i bawb. Bydd gwahoddiad i'ch plentyn fynychu'r cyfarfod os yw am wneud hynny, oherwydd mae'n gallu bod yn ddefnyddiol casglu teimladau a meddyliau eich plentyn ynghylch ei addysg ei hun. Mae rhai rhieni'n teimlo bod y cyfarfodydd hyn yn arbennig o ddefnyddiol ar y dechrau er mwyn trafod rhaglen ddysgu benodol eu plentyn; fodd bynnag, gallwn drefnu i gwrdd â chi os neu bryd y bydd angen hynny, neu ar eich cais chi.

Nod unrhyw gyfarfod yw dod yn ymwybodol o'ch dull o addysgu eich plentyn yn hytrach nag edrych ar feysydd pynciol penodol. Mae rhieni'n dewis gwahanol ffyrdd o ddangos hyn; efallai y byddwch am ddangos enghreifftiau o waith a wnaed, neu o ddyddiaduron a gedwir i gofnodi gweithgareddau, neu unrhyw brosiectau sydd ar y gweill. Efallai y byddwch am ddangos enghreifftiau o'r adnoddau neu'r gweithgareddau ar y we yr ydych yn eu defnyddio, neu efallai y byddwch am drafod yn syml sut ydych yn cyflwyno'r cwricwlwm a ddewiswyd gennych. Mae rhai'n hoffi cadw at amserlenni a gwrslyfrau, ac eraill yn dewis dilyn cwricwlwm sy'n llawer mwy cyfannol. Ar ôl cyfarfod, bydd yr awdurdod lleol yn darparu adroddiad

ysgrifenedig cryno i chi sy'n crynhoi'r drafodaeth ac yn cofnodi unrhyw gyngor a awgrymwyd.

Mae rhai rhieni'n dewis peidio â chyfarfod, ond yn hytrach ddarparu samplau o waith neu adroddiad ysgrifenedig, neu gael trydydd parti i gymeradwyo eu darpariaeth addysgol.

Bydd yr ymgynghorydd addysg ddewisol gartref yn cytuno ar unrhyw gyswllt pellach gyda chi ac yn rhoi rhif i chi gysylltu petaech yn dymuno cael unrhyw gymorth neu gyngor pellach.

## SEFYLL ARHOLIADAU

Mae llawer o blant sy'n derbyn addysg ddewisol gartref yn sefyll arholiadau TGAU a Safon Uwch fel ymgeiswyr preifat ac yn gwneud yn dda iawn. Mae llawer yn cyflawni'r graddau uchaf ac yn mynd ymlaen i brifysgolion yn y DU a thramor.

Mae'n bosibl dilyn cyrsiau TGAU neu Safon Uwch ar-lein neu drwy ganolfan leol. Fel ymgeisydd preifat, rydych yn gyfrifol am yr holl gostau astudio a sefyll arholiadau, ac rydych yn gyfrifol am ganfod a chofrestru gyda chanolfan arholi.

Nid oes yn rhaid i chi fod yn 16 i sefyll arholiadau TGAU; gellir gwneud hynny ar unrhyw oed. Mae cost sefyll arholiad TGAU neu Safon Uwch yn gallu amrywiol hefyd. Bydd angen i chi darfod hyn gyda'ch darparwr.

Mae'r wefan **Education Otherwise** hefyd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ynghylch sefyll arholiadau.

[http://www.educationotherwise.net/index.php?option=com\\_weblinks&view=category&id=47%3Alearning-and-exams&Itemid=71](http://www.educationotherwise.net/index.php?option=com_weblinks&view=category&id=47%3Alearning-and-exams&Itemid=71)

Am fwy o wybodaeth a chymorth ynghylch sefyll arholiadau, mae'r wefan ganlynol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol: [www.home-education-exams.org.uk](http://www.home-education-exams.org.uk)

## ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

O bryd i'w gilydd, mae Sir Benfro yn cynnal gweithdai a digwyddiadau hyfforddi i weithwyr proffesiynol a rhieni mewn perthynas â phlant gydag ADY, a gellir canfod y rhain ar wefan Cyngor Sir Penfro neu drwy eich ymgynghorydd addysg ddewisol gartref.

Yn ogystal, mae'r gwefannau gwybodaeth canlynol yn cynnig ar gael:

### Dyslecsia

Mae Dyslecsia Cymru yn cynnig cyngor a chefnogaeth i unigolion preifat, sefydliadau'r trydydd sector a busnesau preifat. Mae eu gwasanaethau'n cynnwys:

- Llinell gymorth ar gyfer unigolion yng Nghymru sy'n cael eu heffeithio gan ddyslecsia.

- Sgrinio dyslecsia a thiwora ar gyfer pob oed, gan gynnwys plant oed cynradd ac uwchradd yn ogystal ag oedolion.
- Gellir trefnu tiwtora hefyd. Rydym yn defnyddio sgrinwyr a thiworiaid cymwysedig sydd yn aelod o'r Gymdeithas Ddyslecsia Prydeinig.

Gwefan: <http://www.walesdyslexia.org.uk/?lang=cy>

Llinell gymorth rhadffon: 0808 1800 110

### Awtistiaeth

Mae Cymdeithas Genedlaethol Awstistiaeth Cymru (NAS Cymru) yn elusen yn y DU sy'n cynnig cymorth i bobl sydd ag awtistiaeth (gan gynnwys syndrom Asperger) a'u teuluoedd. Mae gwefan NAS Cymru yn cynnwys popeth ynglŷn ag awtistiaeth o wefan y DU ac mae'n darparu gwybodaeth ynghylch gwasanaethau a gweithgareddau yng Nghymru.

Ffôn: (0)2920 629 312

E-bost: [wales@nas.org.uk](mailto:wales@nas.org.uk)

Gwefan: <https://www.autism.org.uk/?&amp%3B&&&sc lang=cy-GB>

### SNAP Cymru

Mae SNAP Cymru yn elusen plant Cymru gyfan sydd ar gael i bawb sy'n gweithio gyda theuluoedd, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol ar faterion sy'n ymwneud ag anghenion addysgol ychwanegol ac anabledau. Mae SNAP am ddim i deuluoedd ac yn cynnig gwybodaeth a chyngor diduedd a chywir drwy Gynllun Cefnogi Teuluoedd annibynnol.

Mae gan SNAP Cymru wasanaeth llinell gymorth genedlaethol. Bydd tîm y llinell gymorth yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ddi-dduedd, gyfrinachol a chywir yn rhad ac am ddim mewn perthynas ag unrhyw bryderon sydd gennych ynglŷn ag addysg a'ch datblygiad chi neu eich plentyn. Bydd y swyddfa genedlaethol yn gallu eich cysylltu â'r swyddog lleol ar gyfer Sir Benfro.

Ffôn: 0845 120 37 30

E-bost: [helpline@snapcymru.org](mailto:helpline@snapcymru.org)

Gwefan: [www.snapcymru.org](http://www.snapcymru.org)

### CYMORTH A GWASANAETHAU YCHWANEGOL

Er eich bod wedi dewis addysgu gartref, byddwch yn dal i allu cael mynediad at ystod o weithgareddau a gwasanaethau i gefnogi a gwella'r profiad addysgol a ddarperir gennych. Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi cipolwg cryno ar rai o'r gwasanaethau sydd ar gael yn lleol. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr, ac mae'n bosibl y bydd gwasanaethau a grwpiau eraill lleol yn eich ardal.

Mae gwybodaeth bellach ar gael ar wefan Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Benfro

[www.sir-benfro.gov.uk/gwasanaeth-gwybodaeth-i-deuluoedd](http://www.sir-benfro.gov.uk/gwasanaeth-gwybodaeth-i-deuluoedd)



## GWASANAETH GWYBODAETH I DEULUOEDD (FIS)

Yn ogystal â chynnig gwybodaeth o safon uchel i blant, pobl ifanc, rhieni, neiniau a theidiau, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol ledled Sir Benfro, gallwn hefyd ddweud wrthy ch am wasanaethau sy'n rhoi cefnogaeth i rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc rhwng 0 a 19 oed yn eu rôl fel rhieni.

Mae ystod eang o wybodaeth ar gael am wasanaethau i blant a phobl ifanc rhwng 0 a 20 oed. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am ofal plant, gwasanaethau cefnogi teuluoedd, gweithgareddau i blant a phobl ifanc, addysg a hyfforddiant, a llawer, llawer mwy. Cofiwch fod y gwasanaeth ar gael yn rhad ac am ddim!

Cysylltwch ar y ffôn, drwy e-bost, yn ysgrifenedig neu wyneb yn wyneb:

Cross Park,

Doc Penfro SA72 6SW

**Llinell Wybodaeth: 01437 775700**

**Ebost: [fis@pembrokeshire.gov.uk](mailto:fis@pembrokeshire.gov.uk)**

Ar agor: Llun – Gwener 9:00am - 5:00pm

(Mae peiriant ateb 24 awr hefyd ar gael).

## GWASANAETH LLYFRGELL

Mae Llyfrgelloedd Sir Benfro yn darparu gwasanaethau benthyca llyfrau a gallant fod yn adnodd defnyddiol i rieni sy'n darparu addysg ddewisol gartref. Gallwch hefyd fenthyca DVDs a gwybodaeth hanesyddol ac mae mynediad am ddim i'r we ar gael am hyd at un awr y dydd. Nid oes tâl am ymuno â'r llyfrgell, ond bydd angen i rieni lofnodi yn achos plant dan 18 oed. Mae rhai llyfrgelloedd yn cynnig sesiynau adrodd stori i blant iau. Yn eich llyfrgell leol gallwch:

- Syrffio'r we
- Anfon a derbyn negeseuon e-bost
- Defnyddio pecynnau meddalwedd Office (Word, Excel, Powerpoint)
- Sganio lluniau, delweddau a thestun
- Defnyddio meddalwedd arbennig ar gyfer pobl sydd â nam ar eu golwg
- Edrych ar adnoddau ar-lein gan gynnwys e-lyfrau/cylchgronau/cyfeirlyfrau, ac ati

Am fwy o wybodaeth am eich gwasanaethau llyfrgell lleol, ewch i:

Gwefan: [www.sir-benfro.gov.uk/llyfrgelloedd-a-diwylliant](http://www.sir-benfro.gov.uk/llyfrgelloedd-a-diwylliant)



## IEUENCTID SIR BENFRO

Mae Ieuenctid Sir Benfro yn rhoi profiadau, cyfleoedd, gwybodaeth, cyngor a chymorth personol i bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed.

Darperir rhaglenni gan weithwyr ieuenctid llawn amser a rhan amser o ganolfannau ieuenctid penodedig a lleoliadau cymunedol ledled y sir, megis Canolfannau Dysgu Cymunedol, ysgolion a neuaddau cymuned/pentref. Mae canolfannau ieuenctid yn cynnig amrywiaeth o raglenni a gweithgareddau a chyfarpar gan gynnwys yr ystafelloedd cyfrifiaduron diweddaraf a elwir yn labordai digidol.

Mae Gwobr Dug Caeredin ar gael i bawb rhwng 14 a 24 oed. Gellir dilyn rhaglenni ar dair lefel. Ar ôl eu cwblhau'n llwyddiannus, gallant arwain at Wobr Efydd, Arian neu Aur. Y bobl ifanc eu hunain sy'n penderfynu pa drywydd yr hoffent ei ddilyn. Gallwch wneud Gwobr Dug Caeredin drwy'r Gwasanaeth Ieuenctid, Sgowntiaid, Geidiaid, ac ati. Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan Gwobr Dug Caeredin - <http://www.dofe.org>. Mae gan y Gwasanaeth Ieuenctid aelod o staff arbennig ar gyfer Gwobr Dug Caeredin; am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Gwasanaeth Ieuenctid.



Caiff y Gwasanaeth Gwybodaeth i Ieuenctid ei ddarparu gan weithwyr gwybodaeth ieuenctid arbenigol drwy'r parth ieuenctid teithiol, gwefan a phapur newydd.

Mae ein Parth Ieuenctid Teithiol yn ymweld yn rheolaidd ag ysgolion, canolfannau ieuenctid, lleoliadau gwledig a safleoedd a digwyddiadau cymunedol eraill lle mae pobl ifanc yn bresennol. Mae'r gwasanaeth teithiol yn darparu amgylchedd addas i bobl ifanc gyfarfod, trafod, cael gwybodaeth neu gyngor neu i gael hwyl.

Ewch i'n gwefan arbennig i bobl ifanc yn Sir Benfro:-  
[www.pembrokeshireyouthzone.co.uk](http://www.pembrokeshireyouthzone.co.uk)



## CHWARAEON SIR BENFRO

Mae Chwaraeon Sir Benfro yn cyflogi Swyddogion 'Pobl Ifanc Egnïol' sy'n gweithio o bob un o'r ysgolion uwchradd yn Sir Benfro. Maent yn gyfrifol am ddarparu rhaglen o chwaraeon a gweithgareddau corfforol allgyrsiol yn seiliedig ar hoffterau'r disgyblion.

Mae'r Swyddogion Pobl Ifanc Egnïol yn cydweithio'n agos â'r ysgolion cynradd sy'n bwydo eu hysgol uwchradd i gynyddu'r cyfleoedd chwaraeon allgyrsiol sydd ar gael i ddisgyblion yn ogystal â gwella'r cysylltiadau rhwng ysgolion lleol a chlybiau chwaraeon yn y gymuned.

Mae croeso i ddisgyblion sy'n derbyn addysg gartref fynyachu sesiynau a gydlynir gan ein Tîm o Swyddogion Pobl Ifanc Egnïol. Dylai rhieni gysylltu â'u Swyddog Lleol i gael gwybod am y cyfleoedd sydd ar gael bob tymor.

Ysgol Bro Gwaun & STP; Dan Bellis; [Daniel.bellis@pembrokeshire.gov.uk](mailto:Daniel.bellis@pembrokeshire.gov.uk)  
07920 702044

Ysgol Dewi Sant; Amanda John; [Amanda.john@pembrokeshire.gov.uk](mailto:Amanda.john@pembrokeshire.gov.uk) 07920  
723447

Ysgol Aberdaugleddau; Barry John; [barry.john@pembrokeshire.gov.uk](mailto:barry.john@pembrokeshire.gov.uk) 07920  
537198

Tasker Milward & Portfield; Rominy Colville; [Rominy.colville@pembrokeshire.gov.uk](mailto:Rominy.colville@pembrokeshire.gov.uk)  
07769 887884

Ysgol y Preseli; Elgan Vittle; [Elgan.vittle@pembrokeshire.gov.uk](mailto:Elgan.vittle@pembrokeshire.gov.uk) 07920 537155

Greenhill & Phenfro; Wyndham Williams;

[Wyndham.williams@pembrokeshire.gov.uk](mailto:Wyndham.williams@pembrokeshire.gov.uk) 07920 700759

Mae athrawon ysgolion cynradd yn defnyddio Aml Sgiliau a Champau'r Ddraig a chardiau adnodd 'Chwarae a Dysgu' i gyflwyno Addysg Gorfforol yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yn ogystal â chwaraeon allgyrsiol. Mae'r cardiau yn rhoi llawer o syniadau ymarferol ar gyfer datblygiad corfforol. Mae staff dysgu ledled y sir wedi cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r adnoddau hyn, a bydd cyrsiau ychwanegol i staff newydd. Mae croeso i rieni sy'n addysgu gartref fynychu gweithdai yn y dyfodol.

## CANOLFANNAU HAMDDEN

Mae Canolfannau Hamdden yn aml yn cynnal cyrsiau i bobl ifanc fel crefft ymladd, dawnio stryd, gymnasteg, achub bywyd, pêl-droed hwyl, sesiynau ffitrwydd ar gyfer plant iau a sesiynau Chwarae a Chreu i blant iau, ac ati. Cysylltwch â'ch canolfan hamdden leol i gael gwybod beth sydd ar gael yno. Dilynwch y ddolen isod i gael manylion am eich canolfan hamdden leol:

[http://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=107,2004,2023&parent\\_directory\\_id=646](http://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=107,2004,2023&parent_directory_id=646)



### NOFIO

'Nofio am ddim' i blant dan 16. Mae hyn yn caniatáu i blant fynd am ddim yn ystod gwyliau ysgol (mae amserau'n amrywio ymhob pwll). Cysylltwch â'ch pwll nofio lleol am yr amseroedd.

Mae canolfannau hamdden yng Nghrymbych, Abergwaun, Hwlfordd, Aberdaugleddau, Arberth, Penfro a Dinbych-y-pysgod.



Mae'r Prosiect Chwarae Llwybrau Porffor yn cael ei ariannu gan y Loteri FAWR ac



mae'n darparu cyfleoedd chwarae mynediad agored yn rhad ac am ddim i blant a phobl ifanc rhwng 5 a 15 oed. Cynhelir sesiynau yn Abergwaun, Wdig, Llandysilio, Maenclochog, Llandudoch, Pont Fadlen, Angl, Neyland, Pennar, Dinbych-y-pysgod a Chilgeti.

Mae croeso i holl blant a phobl ifanc. Mae'r sesiynau'n digwydd yn eu parciau a'u manau agored. Gellir mynd a dod yn ôl yr awydd gan nad yw'n gyfleuster gofal plant. Edrychwch ar yr amserlenni am amserau'r sesiynau.

Am wybodaeth bellach:

[www.purpleroutes.co.uk](http://www.purpleroutes.co.uk)

Ffôn: 01646 683919

## TECHNOCAMPS

Mae Technocamps yn darparu gweithdai ar gyfer unrhyw grwpiau o bobl ifanc ledled Cymru, ar raglennu, datblygu apiau, datblygu gemau, roboteg a llawer rhagor. Arweinir y prosiect gan Brifysgol Abertawe, mewn partneriaeth â Phrifysgolion Aberystwyth, Bangor a Phrifysgol De Cymru, felly mae eu timau wedi gallu cynnal gweithdai ledled y wlad mewn ardaloedd cyfleus yng Nghymru.

Mae'r holl adnoddau ar gael yn rhad ac am ddim ar-lein, gan roi'r cyfle i bobl ifanc barhau i ddysgu Cyfrifiadureg wrth eu pwysau gartref ac yn yr ysgol. Beth am gymryd golwg ar eu llyfryn ar eu gwefan, cyfrif Facebook neu Twitter.

Cysylltwch â'ch tîm Technocamps lleol os oes gennych unrhyw gwestiynau, ar

Cyfrifiadureg Technocamps  
Coleg y Gwyddorau, Prifysgol Abertawe  
Parc Singleton  
Abertawe  
SA2 8PP  
Ffôn: 01792 606890  
E-bost: [info@technocamps.com](mailto:info@technocamps.com)  
Twitter: [@Technocamps](https://twitter.com/Technocamps)  
Facebook: [Technocamps](https://www.facebook.com/Technocamps)

## MEDRUSRWYDD BEICIO

Mae'n bosibl hefyd i blant sy'n derbyn addysg ddewisol gartref fanteisio ar y Cynllun Beicio Diogel. Mae hyfforddwyr yn cynnal hyfforddiant beicio'r Safonau Cenedlaethol sy'n cynnwys dysgu am Reolau'r Ffordd Fawr i ddefnyddwyr ffordd ifanc; dysgu sut i gynnal a chadw beiciau, bod yn amlwg a gwisgo offer gwarchod y pen. Fel rheol, bydd hyfforddiant beicio a diogelwch ar y ffordd yn digwydd mewn ysgolion gyda grwpiau ysgol penodol, ond oes gennych grŵp o blant sydd eisiau cymryd rhan, gellir trefnu grŵp penodol drwy adran diogelwch ar y ffordd yr

awdurdod lleol.

Gwobrau Safonau Cenedlaethol Lefelau 1, 2 & 3 (Achrededig):

- Lefel 1 : Hyfforddiant yn y Safonau Cenedlaethol, mae'r hyfforddeion yn dysgu sut i reoli a meistrolï eu beiciau. Mae'r hyfforddiant yn digwydd mewn amgylchedd oddi wrth geir neu draffig – ar iard chwarae fel arfer.
- Lefel 2 : Mae hyfforddiant yn y safonau cenedlaethol yn digwydd ar y ffordd, gan roi profiad o feicio go iawn i'r hyfforddeion er mwyn iddynt allu ymdopi â thraffig ar deithiau byr.
- Lefel 3 : Hyfforddiant yn y safonau cenedlaethol i bobl ifanc oed uwchradd ac i oedolion (y ddau fath ar gais), bydd hyfforddeion yn dysgu sgiliau i ymdopi â mwy o amrywiaeth o amodau traffig na'r hyn a wneir ar Lefel 2. Pan fydd hyfforddeion yn cyrraedd safon Lefel 3, byddant yn gallu ymdopi gyda phob math o amodau ar y ffordd a sefyllfaoedd traffig mwy heriol.

Os hoffech drefnu grŵp i gymryd rhan yn y Gwobrau Safonau Cenedlaethol Lefelau 1, 2 neu 3 (Achrededig), cysylltwch â'r Tîm Diogelwch ar y Ffordd ar 01437 775144 neu [road.safety@pembrokeshire.gov.uk](mailto:road.safety@pembrokeshire.gov.uk)



## GYRFA CYMRU Y GORLLEWIN

Mae Gyrfu Cymru y Gorllewin yn gwmni preifat a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sy'n darparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd i bobl o bob oed yn chwarter de-orllewin Cymru. Mae'n gallu darparu gwybodaeth i bobl ifanc ynglŷn â swyddi, cyrsiau a chyfleoedd hyfforddi. Mae'n cynnig gwasanaeth swyddi gwag i rai sydd dan 19 oed. I rieni, mae'n gallu darparu cyngor a gwybodaeth i'w helpu i gefnogi eu plentyn gyda phenderfyniadau gyrfaoel. Fel awdurdod lleol, rydym yn rhannu gwybodaeth sydd gennym wedi'i chadw ar ein cronfa ddata addysgu gartref, fel bod eich plentyn chi'n derbyn yr un wybodaeth a chyfleoedd â phobl ifanc eraill yn Sir Benfro oni bai bod rhiant yn dewis peidio â derbyn y wybodaeth honno.

Mae swyddfeydd yn:

Doc Penfro – 2A Stryd Meyrick, Doc Penfro, SA72 6UT. (01646) 623510

Aberdaugleddau – Marine House, Nantucket Avenue, SA73 2BE (01646) 691940

Hwlfordd – 31-33 Y Stryd Fawr, Hwlfordd, SA61 2BW (01437) 772100

Aberteifi - (01239) 622119



## Gwobr Dug Caeredin (DofE)

Gall unrhyw un sydd rhwng 14 a 24 oed ymgymryd â Gwobr Dug Caeredin. Mae'n

cymryd rhwng 1 a 4 mlynedd i gwblhau rhaglenni Gwobr Dug Caeredin. Rydych yn cyflawni eich Gwobr drwy gwblhau rhaglen bersonol o weithgareddau mewn pedair adran (pump os ydych yn mynd am yr Aur) – Gwirfoddoli, Corfforol, Sgiliau, Alldaith ac ar gyfer yr Aur, Preswyl.

Gellir dilyn rhaglenni ar dair lefel. Ar ôl eu cwblhau'n llwyddiannus, gallant arwain at Wobr Efydd, Arian neu Aur. Y bobl ifanc eu hunain sy'n penderfynu pa drywydd yr hoffent ei ddilyn. Gallwch wneud Gwobr Dug Caeredin drwy'r Gwasanaeth Ieuencid, Sgowtiaid, Geidiaid, ac ati. Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan Gwobr Dug Caeredin - [www.dofe.org](http://www.dofe.org)

Mae gan y Gwasanaeth Ieuencid aelod o staff arbennig ar gyfer Gwobr Dug Caeredin; am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Gwasanaeth Ieuencid.

Cysylltwch â'ch Cydlynnydd Gwobr Dug Caeredin yng Nghyngor Sir Penfro.

## GWASANAETH CWNSELA YSGOLION

Mae'r Gwasanaeth Cwnsela Ysgolion yn wasanaeth proffesiynol, cyfrinachol sydd ar gael i bob person ifanc rhwng 11 a 19 oed yn Sir Benfro. Mae'r gwasanaeth yn rhoi cyfle rheolaidd i bobl ifanc siarad a meddwl am bethau sy'n bwysig iddynt, ac mae'n gweithredu'n unol â Fframwaith Moesegol Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain (BACP).

Mae'r gwasanaeth ar gael i bobl ifanc o'r un ystod oedran sy'n derbyn addysg ddewisol gartref ar sail allgymorth.

Am wybodaeth bellach, ffoniwch: 07920 702413.

## SIR BENFRO YN DYSGU

Sir Benfro yn Dysgu yw un o ddarparwyr uniongyrchol mwyaf cyrsiau Dysgu i Oedolion a Dysgu yn y Gymuned yng Nghymru ac mae cyrsiau yn agored i bawb sy'n 16 oed a throsodd.

Eu nod yw darparu amrywiaeth eang o gyrsiau sy'n gweddu pob un o'n cwsmeriaid – sef trigolion a busnesau Sir Benfro. Os ydych eisiau meithrin sgiliau a diddordebau newydd, astudio er mwyn ennill cymhwyster neu hybu eich gobeithion gyrfaol, bydd ein cyrsiau yn rhoi'r cyfle lleol perffaith i chi.

Caiff y cyrsiau eu cynnal mewn nifer o wahanol fannau yn y Sir, sy'n golygu ei bod hi'n rhwyddach fyth i chi ddod o hyd i amser a lleoliad sy'n addas ar eich cyfer chi. Hefyd, gallwn ddarparu hyfforddiant wedi'i addasu'n arbennig ar gyfer busnesau: boed hynny ar gyfer un person neu sefydliad cyfan, gallwn addasu'r hyfforddiant er mwyn diwallu anghenion penodol.

Mae cyrsiau Sgiliau Hanfodol rhan amser, fel darllen, ysgrifennu a TG sylfaenol ar gael am ddim gyda Sir Benfro yn Dysgu, sef gwasanaeth dysgu i oedolion y

Cyngor Sir. Ffoniwch y rhif rhadffon 0808 100 3302 am fwy o wybodaeth.

Mae'n rhaid i bobl ifanc fod yn 16 oed i gael eu hystyried yn oedolyn sy'n dysgu. Bydd Cofnod Dysgu Gydol Oes Llywodraeth Cymru yn derbyn y cofrestrriad os yw ar ôl y penblwydd yn 16, ac o dro i dro, bydd rhai pobl ifanc dan 16 yn cael eu derbyn ar gyrsiau. Fodd bynnag, nid oes rheidrwydd ar y dysgwr i fynychu ac nid oes rheidrwydd ychwaith ar y gwasanaeth i dderbyn dysgwr.

## ALLGYMORTH I IEUENCTID

Gall y Tîm Allgymorth gefnogi pobl ifanc rhwng 14 a 25 sydd ddim mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant ... neu sydd ddim yn hapus efallai gyda'r hyn y maent yn ei wneud ar hyn o bryd.

Maent hefyd yn gallu:

- Darparu gwybodaeth, cyngor neu gymorth
- Darparu gwybodaeth sylfaenol am gyrsiau, chwilio am swyddi neu faterion mwy cymhleth fel tai neu fudd-daliadau
- Cynorthwyo gyda'r gwaith o wneud apwyntiadau Gyrfaol a mynd gyda'r bobl ifanc i'r apwyntiadau cyntaf os oes angen
- Mynychu ystod o apwyntiadau neu gyfweiliadau gyda phobl ifanc os oes angen
- Rhoi cymorth i ysgrifennu CV, llenwi ffurflenni cais neu ymweld â darpar gyflogwyr
- Mynychu Coleg neu ddarparwyr hyfforddiant i gael golwg arnynt, cwrdd â thiworiaid neu'r gweithiwr ieuencid sy'n gweithio yn y Coleg
- Cynorthwyo o ran datblygu sgiliau byw yn annibynnol

E-bost: [youthoutreach@pembrokeshire.gov.uk](mailto:youthoutreach@pembrokeshire.gov.uk)

Tudalen Facebook Tîm Allgymorth Ieuencid Sir Benfro

Ffôn: 01437 776117/776118



## MILFORD YOUTH MATTERS

Mae Milford Youth Matters yn gweithio gyda phobl ifanc rhwng 14-25 oed sy'n byw yn Aberdaugleddau a'r cyffiniau. Rydym ar hyn o bryd yn cynnig nifer o brosiectau sy'n paratoi pobl ifanc ar gyfer symud yn nes at waith. Rydym yn cynnig y prosiectau canlynol ar hyn o bryd:

**Buddies Café** – lleoliad profiad gwaith wyth wythnos yng Nghanolfan Ieuencid Aberdaugleddau sy'n rhoi profiad ymarferol o weithio mewn sefydliad arlwygo bach i bobl ifanc 16-25 oed. Mae modd i gyfranogwyr ddatblygu sgiliau o ran paratoi bwyd, cymryd stoc, gwasanaeth i gwsmeriaid a thrin a thrafod arian parod.

**Sgiliau Hanfodol** – Dosbarthiadau am ddim bob Dydd Mawrth rhwng 11-1pm – i unrhyw sy'n ddi-waith rhwng 16 a 25 oed. Mae'n bosibl i bobl ifanc ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ac ennill cymwysterau.

**Galw Heibio** – Bob Dydd Iau rhwng 1 - 5pm i bobl ifanc 16-25 oed. Mae Galw Heibio

yn cynnig mynediad am ddim i'r rhyngryd a chymorth gan Weithwyr Ieuenctid i lunio CV, ymgaisio am swyddi, cwblhau gwaith papur ac ati.

MY Time – cynllun cymhelliant gwirfoddoli a gynigir i bobl ifanc 16-25 oed o Aberdaugleddau. Mae pobl ifanc yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau gwirfoddoli gan gynnwys glanhau llwybrau, peintio parciau lleol, gwella'r dref leol, mynd â chŵn am dro a glanhau'r traeth. Ar ôl iddynt gyflawni ugain awr o wirfoddoli a bod y Gweithwyr Ieuenctid yn dilysu hynny, bydd cyfranogwyr yn derbyn £20 i'w wario gyda busnesau lleol sydd wedi cofrestru gyda'r cynllun.

Mae Buddies Café ar agor i'r cyhoedd ac mae croeso i unrhyw berson ifanc alw heibio am de/coffi a rhywbeth i'w fwyta unrhyw bryd – oriau agor y caffi yw Llun – Gwener 9:30 - 4:00pm.

Cyn hir, byddwn yn lansio ein gwefan - [www.milfordyouthmatters.org.uk](http://www.milfordyouthmatters.org.uk)

Cysylltwch â: Cydlynnydd Prosiect  
Milford Youth Matters  
Canolfan Ieuenctid Aberdaugleddau  
Ffordd y Priordy  
Aberdaugleddau  
SA73 2EE

Ffôn: 01646 663137  
Symudol: 07716842150

## YMDDIRIEDOLAETH POBL IFANC ABERGWAUN AC WDIG (POINT)

Nod POINT yw darparu canolfan galw heibio i bobl ifanc 11 - 25 oed, sydd ar agor chwe diwrnod yr wythnos, 50 wythnos y flwyddyn, yn Abergwaun, er mwyn helpu pobl ifanc i feithrin hunan-barch a hunanhyder a dysgu sgiliau ymdopi â'r problemau personol a chymdeithasol a brofir wrth bontio o blentynod i fyw fel oedolion, a'u galluogi i chwarae rôl yn y gymuned lle maent yn byw. Prif nodau POINT yw:

- Darparu gwasanaeth galw heibio lle y gall pobl ifanc gael cymorth a gwybodaeth anwahaniaethol, anfeirniadol o safon uchel, mewn amgylchedd cynnes, diogel a chroesawgar lle y gallant wella'u sgiliau bywyd, datblygu eu diddordebau a chymdeithasu â'u cyfoedion a modelau rôl cadarnhaol.
- Grymuso pobl ifanc i wneud penderfyniadau ac ystyried opsiynau a chyfleoedd. Datblygu ymdeimlad o le iddynt hwy eu hunain o fewn eu cymuned, yn y gymdeithas ac yn yr amgylchedd lleol.
- Cyflwyno hyfforddiant achrededig a galwedigaethol mewn lleoliad anffurfiol ac ar gyflymder sy'n addas ar gyfer pob unigolyn, yn enwedig y bobl ifanc hynny sy'n cael anawsterau mewn amgylchedd ysgol.
- Ysbrydoli pobl ifanc i ymateb i her gweithgareddau antur gyda'r nod o ddatblygu diddordebau, gwella hyder, hunan-barch a sgiliau tîm.

- Cynrychioli anghenion a safbwyntiau pobl ifanc yn eu cymuned a gweithio mewn partneriaeth â nhw i roi syniadau ar waith.

Mae yna brosiect newydd, 'POINT Means Jobs' wedi dechrau, sef prosiect a ariennir gan y Loteri Fawr ac sydd wedi'i leoli yn y Printworks, Parc-y-shwt, Abergwaun. Bydd y prosiect yn gwella sgiliau cyflogadwyedd pobl ifanc Abergwaun ac Wdig yn ogystal â phobl ifanc yn ardal ehangach Gogledd Sir Benfro.

Y nod yw defnyddio sgiliau a phrofiad busnesau lleol i roi rhagflas i'n haelodau o'r llu o swyddi a diwydiannau gwahanol sydd gennym yng Ngogledd Sir Benfro. Caiff y sgiliau hyn eu trosglwyddo drwy weithdai a lleoliadau gwaith a'r gobaith yw y bydd y rhain yn arwain at waith â thâl yn y pen draw.

Manylion cyswllt:

Ymddiriedolaeth Pobl Ifanc Abergwaun ac Wdig,  
Popworks  
Parc-y-shwt  
Abergwaun  
SA65 9AP  
Ffôn: 01348 875467

## CYNGOR AR BOPETH (CAB)

Eu nod yw rhoi'r cyngor sydd ei angen ar bobl i ddatrys y problemau sy'n eu wynebu a gwella'r polisïau a'r arferion sy'n effeithio ar fywydau pobl.

Rydym yn rhoi cyngor annibynnol, cyfrinachol a diduedd yn rhad ac am ddim i bawb ar eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth, yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn herio gwahaniaethu.

CAB Sir Benfro (Hwlfordd)

43 Cartlett  
Hwlfordd  
Sir Benfro  
SA61 2LH

Ffôn: 0844 4772020

E-bost: [advice@pembscab.org.uk](mailto:advice@pembscab.org.uk)

Gwefan: [www.citizensadvice.org.uk](http://www.citizensadvice.org.uk)

## GWASANAETH EIRIOLAETH PLANT A PHOBL IFANC SIR BENFRO A CHEREDIGION – TROS GYNNAL

Weithiau mae angen cymorth ar blant a phobl ifanc i gael eraill i wrando arnynt. Efallai eu bod am gael cymorth i leisio'u barn neu gael eraill i wrando arnynt



ynglŷn â llawer o faterion gwahanol sy'n effeithio arnynt. Mae Tros Gynnal yn sefydliad annibynnol sy'n rhoi cymorth eiriolaeth, gwybodaeth am eu hawlïau, cymorth mewn cyfarfodydd (er enghraifft, cyfarfodydd â gweithwyr proffesiynol eraill), a chymorth i wneud cwynion i blant a phobl ifanc sy'n gymwys i dderbyn y cymorth hwnnw.

Ffôn: 01545 571865

Rhadffon Pobl Ifanc: 0808 168 2599

Gwefan: [www.trosgynnal.org.uk](http://www.trosgynnal.org.uk)



CYMDEITHAS GWASANAETHAU GWIRFODDOL SIR BENFRO  
(PAVS)

Gall pobl ifanc rhwng 14 a 25 oed gofrestru fel gwirfoddolwr ifanc a gallant gael profiad o lawer o wahanol fathau o gyfleoedd i wirfoddoli a gwella'u sgiliau, ennyn hyder a chyfarfod â phobl newydd yn ogystal ag ennill achrediad neu hyd yn oed gymwysterau. Ewch i wefan PAVS am ragor o wybodaeth:

Ffôn: 01437 769422

Gwefan: <http://www.pavs.org.uk/volunteering/youthvolunteering.htm>

E-bost: [volunteering@pavs.org.uk](mailto:volunteering@pavs.org.uk)

### TÎM O AMGYLCH Y TEULU (TAF)

Gwasanaeth cymorth i chi a'ch teulu yw'r Tîm o Amgylch y Teulu. Dangoswyd bod y canlyniadau gorau yn digwydd lle mae teuluoedd yn nodi drostynt eu hunain y newidiadau cadarnhaol y maent yn dymuno'u gwneud i'w bywyd teuluol. Bydd TAF yn cefnogi teuluoedd i wneud y newidiadau hyn. Gall hyn arwain at ddyfodol mwy cadarnhaol i'w plant.

Bydd TAF yn:

- Gweithio gyda'ch teulu i edrych ar y newidiadau yr hoffech eu gwneud er mwyn gwella'ch bywyd teuluol.
- Cytuno ar gynllun gweithredu sy'n nodi sut y byddwch yn cyflawni'r newidiadau hyn a phwy fydd yn gyfrifol am bob cam gweithredu.
- Helpu'ch teulu i deimlo'n fwy hyderus, fel y gallwch barhau â'r newidiadau yn y dyfodol heb fod angen eu cymorth.
- Eich hysbysu am wasanaethau cymorth eraill a all hefyd eich helpu i weithio ar eich cynllun.
- Gwneud i chi deimlo'n gyfforddus ynglŷn â defnyddio'r gwasanaeth eto os cewch broblemau yn y dyfodol.

Gall unrhyw weithiwr proffesiynol eich cyfeirio at TAF (gyda'ch caniatâd). Cyn gwneud hyn, byddant yn siarad â chi ynglŷn â pha newidiadau yr hoffech eu gwneud a pha gymorth y bydd ei angen arnoch, yn eich barn chi. Bydd angen i chi lofnodi ffurflen gydsynio er mwyn i ni ddechrau gweithio gyda chi. Os neu pan na fydd angen eu cymorth arnoch mwyach gallwch dynnu'n ôl o'r cymorth unrhyw bryd.

Tîm o Amgylch y Teulu (TAF)  
Canolfan Dechrau'n Deg,  
Parc y Groes, Pennar,  
Doc Penfro SA72 6SW  
Ffôn: 01437 775700

## IECHYD A LLESIANT

### HER IECHYD SIR BENFRO

Er ein bod yn byw'n hirach rydym yn mynd yn llai iach. Un o amcanion allweddol partneriaid Her Iechyd Sir Benfro yw helpu pobl i fod mor iach â phosibl.

Fel rhan o'r strategaeth gyfredol, y blaenoriaethau penodol yw:

- Lleihau ysmegu
- Hyrwyddo yfed alcohol yn gyfrifol
- Hyrwyddo arferion bwyta iach
- Annog pobl i wneud mwy o ymarfer corff
- Iechyd emosiynol a llesiant meddyliol

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am bob un o'r rhain, yn ogystal â chyngor ar gyffuriau, alcohol, iechyd rhywiol ac iechyd y geg drwy'r ddolen isod:

[http://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=1210,1943&parent\\_directory\\_id=646](http://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=1210,1943&parent_directory_id=646)

### GWASANAETH NYRSIO YSGOLION

Er nad yw eich plentyn/plant yn mynychu'r ysgol, gellir defnyddio'r Gwasanaeth Nyrsio Ysgol o hyd. Mae Nyrsys Ysgol yn nyrsys cymwysedig, gyda nifer ohonynt wedi cael hyfforddiant ychwanegol ar ôl cofrestru ac wedi ennill cymwysterau sy'n ymwneud ag anghenion iechyd plant a phobl ifanc. Maent yn ymgymryd â rolau penodol ac maent yn gyfrifol am roi cymorth a chyngor i blant/pobl ifanc oedran ysgol yn unigol, teuluoedd a chymunedau ysgol. Maent yn darparu gwybodaeth am raglenni imiwneiddio, iechyd rhywiol a llawer mwy.

Mae nyrsys ysgol ar gael i gynnig cyngor ar faterion fel gwlychu'r gwely, baeddu, gwybodaeth ddeietegol, problemau ymddygiad, gwybodaeth am laslencyndod/iechyd rhywiol ac iechyd emosiynol.

Maent hefyd yn cyfrannu at addysg/hybu iechyd ac yn gallu cynnig sesiynau grŵp gan gynnwys: bwyta'n iach, diogelwch yn yr haul, ysmegu, hylendid personol ac addysg rhyw.

Er mwyn gofyn am y gwasanaeth ffoniwch:  
Adran Iechyd Plant Ffôn: 01437 773850

## GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL

Efallai y bydd eich plentyn am gymryd rhan mewn rhai o'r grwpiau lifrau sy'n cyfarfod yn lleol; mae hyn yn ffordd dda o gyfarfod â phlant a phobl ifanc eraill, gwneud ffrindiau, dysgu sgiliau a chael profiadau eraill.

Mae gwefan Girlguiding yn rhoi gwybodaeth am y Rainbows (5-7 oed), y Brownies (7-10 oed) a'r Guides (10-14 oed). Mae adran hyn i ferched 14-26 oed hefyd, sy'n gallu dewis o blith amrywiaeth eang o gyfleoedd unigryw a chyffrous, gan gynnwys teithio yn y DU ac o amgylch y byd, gwirfoddoli gyda merched iau ym mudiad y Guides fel Mentor neu Arweinydd, a gweithio tuag at gymwysterau gwerthfawr.

Gwefan: [www.girlguiding.org.uk/interested](http://www.girlguiding.org.uk/interested)  
Ffôn: 0800 1 69 59 01

Mae gwefan y Sgowtiaid yn rhoi gwybodaeth am y Beavers (6-8 oed), y Cybiau (8-10 oed), y Sgowtiaid (10-14 oed) a'r Sgowtiaid Chwilota (14-18 oed).

Gwefan: [www.scouts.org.uk/join](http://www.scouts.org.uk/join)

Ffôn: 0845 300 1818

Edrychwch hefyd ar:

[http://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?SocietyCat=79&id=18696&nav=107,108,1887&parent\\_directory\\_id=646&language=&textonly](http://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?SocietyCat=79&id=18696&nav=107,108,1887&parent_directory_id=646&language=&textonly)

## DRAMA A DAWNS



Theatre Arts Schools  
**Stagecoach**

### Celfyddydau Theatr Stagecoach - Hwlfordd

Canu, Dawnsio a Drama i fechgyn a merched 4 - 18 oed

Ysgol Syr Thomas Picton,  
Queensway,  
Hwlfordd SA61 2NX  
Ffôn: 0845 604 1422

## Academi Ddawns Gorllewin Cymru

O fale i blant, i hip hop i bobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion, jazz modern neu ddawnsio stryd, mae gennym rywbeth at ddant pawb - o 'Baby Ballet' yn ddwy flwydd oed. Cynhelir dosbarthiadau yn Aberdaugleddau, Doc Penfro a Hwlfordd. Caiff plant eu dysgu mewn amgylchedd diogel. Mae pob aelod o staff wedi cael gwiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol, maent wedi cymhwyso'n llawn ac maent wedi'u cofrestru. Mae Academi Ddawns Gorllewin Cymru yn aelod o fwrdd arholi byd-eang ym mhob math o ddawns a drama, UKA Dance ac yn aelod corfforaethol o'r British Dance Council.

**Gwefan:** [www.westwalesacademyofdance.co.uk](http://www.westwalesacademyofdance.co.uk)

**Ffôn:** 07876 702810

**E-bost:** [info@westwalesacademyofdance.co.uk](mailto:info@westwalesacademyofdance.co.uk)

### **Theatr Ieuentid Arberth**

Court House  
Sgwâr y Farchnad  
Arberth, Sir Benfro.  
SA67 7AU

[www.narberthyt.co.uk](http://www.narberthyt.co.uk)

07971 881539

E-bost: [narberthyouththeatre@yahoo.co.uk](mailto:narberthyouththeatre@yahoo.co.uk)

[www.facebook.com/#!/narberthyt.co.uk](https://www.facebook.com/#!/narberthyt.co.uk)

Ar gyfer cyw berfformwyr rhwng 11 a 18 oed. Bydd croeso hefyd i bobl sydd â phrofiad o godi arian, marchnata, rheoli llwyfan a sgiliau technegol. Bydd gan aelodau iau o'r gymuned nid yn unig le diogel i fynd gyda'r hwyr, ond bydd ganddynt hefyd le i gael hwyl, profi a dysgu sgiliau newydd a chyfle i ehangu eu gorpwlion drwy fyd y theatr.

## **THEATR IEUENCTID Y TORCH**

### **Theatr Ieuentid Iau**

Cynhelir y Theatr Ieuentid Iau yn y Torch, ar ddydd Sul yn ystod tymor yr ysgol, yn 'Y Gyffordd', sef gofod ymarfer newydd sbon y theatr. Mae'n cael ei rhannu'n ddau grŵp oedran, 3 - 4 oed a 5 - 6 oed gyda dwy sesiwn ar wahân.

Yn ystod y tymor mae'r plant yn cael cyfle i ddysgu sgiliau newydd a gwneud ffrindiau newydd drwy gymryd rhan mewn gemau drama amrywiol ac ymarferion actio. Mae'r sesiynau hyn wedi'u cynllunio er mwyn gwella hyder pobl ifanc drwy actio a chwarae rôl ac maent hefyd yn dipyn o hwyl!

### **Theatr Ieuentid Hŷn**

Cynhelir y Theatr Ieuentid Hŷn yn y Torch, ar nos Fawrth yn ystod tymor yr ysgol, yn 'Y Gyffordd', sef gofod ymarfer newydd sbon y theatr. Mae ein rhaglen wedi'i rhannu'n dri grŵp oedran, 7 - 8 oed, 9 - 10 oed ac 11 - 13 oed gyda thair sesiwn ar wahân.

Yn ystod y tymor mae'r Theatr Ieuentid Hŷn yn cael cyfle i ddatblygu'r gwahanol ddisgyblaethau sydd eu hangen ar gyfer gweithio yn y celfyddydau. Rhoddir ffocws ar waith byfyr, dyfeisio a gwahanol dechnegau a ddefnyddir i ddatblygu cymeriad. Hefyd mae'r grwpiau'n dysgu'r holl gemau drama hwyliog ac ymarferion actio arferol gyda'r nod o ddatblygu hyder pobl ifanc. Mae'r Theatr Ieuentid Hŷn yn cael cyfle i

fod yn rhan o sesiynau 'untro' a arweinir gan weithwyr proffesiynol o'r diwydiant a chael cyfle i berfformio mewn cynhyrchiad arddangos yn y Brif Theatr.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y Theatr Ieuenctid Iau neu Hŷn ffoniwch:  
01646 694192

E-bost [education@torchtheatre.co.uk](mailto:education@torchtheatre.co.uk).

Gwefan: [www.torchtheatre.co.uk/torch-youth-theatre](http://www.torchtheatre.co.uk/torch-youth-theatre)

## CLWB FFERMWYR IFANC

Mudiad ieuenctid gwledig i unrhyw un rhwng 10 a 26 oed yw'r Ffermwyr Ifanc (CFfI). Mae Clybiau a Ffederasiynau Sirol yn rhan o Glybiau Ffermwyr Ifanc Cymru ac o Ffederasiwn Cenedlaethol Clybiau Ffermwyr Ifanc (NFYFC).

Mae'r aelodau'n mwynhau cymdeithasu a rhyngweithio â phobl o'r un oedran; dysgu; cyflawni a chael hwyl. Er gwaetha'r enw, mae Clybiau'n trefnu eu rhaglen eu hunain ar gyfer eu cyfarfodydd rheolaidd, gyda gweithgareddau'n cynnwys chwaraeon, crefftau a datblygu sgiliau. Gydag amrywiaeth mor eang, mae clybiau'n sicrhau eu bod yn darparu rhywbeth at ddant pawb. Ychwanegir at weithgareddau'r Clybiau gan y rhai a drefnir gan CFfI Sir Benfro, megis cystadlaethau, a digwyddiadau cymdeithasol/codi arian – does dim rhaid i chi fod yn ffermwr i ymuno!

Mae gan Glybiau Ffermwyr Ifanc Sir Benfro ddwsin o glybiau drwy'r sir gyfan o Eglwysrwr yn y gogledd yr holl ffordd i lawr i dde'r sir. Mae'r clybiau'n cynnig cyfleoedd anhygoel a gallant gynnig profiad i bob person ifanc waeth beth fo'i oedran neu'i ddiddordeb. Mae ein clybiau yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau a nosweithiau clwb, o gystadlaethau, nosweithiau gyda chŵn yr heddlu, sesiynau blasu hufen iâ, paentio wyneb, gwneud selsig, ac ymweliadau i weld gemau rygbi, nosweithiau ffilm a chyfoeth o gyfleoedd eraill. Trefnir calendr cymdeithasol llawn hefyd gyda dawnsfeydd a chyfleoedd i gymdeithasu a gwneud ffrindiau newydd o bob rhan o'r sir.

Trefnydd Sirol Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Benfro,  
Tŷ Amaeth,  
Winch Lane,  
Hwlfordd,  
SA61 1RW

E-bost: [sir.benfro@yfc-wales.org.uk](mailto:sir.benfro@yfc-wales.org.uk)

Ffôn: – 01437762639 / 07970041117

Gwefan: [www.pembrokeshireyfc.org.uk](http://www.pembrokeshireyfc.org.uk)

## YR URDD

Mae'r Urdd yn fudiad cyffrous a dynamig i blant a phobl ifanc. Mae'n trefnu amrywiaeth o wahanol weithgareddau ledled Cymru. Mae gennym 16 o swyddogion datblygu sy'n gweithio ledled Cymru er mwyn sicrhau bod yr Urdd yn cynnig rhaglen lawn o weithgareddau i blant a phobl ifanc.

Sefydlwyd yr Urdd yn 1922 i roi cyfle i blant a phobl ifanc ddysgu a chymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n rhoi cyfle i bobl ifanc Cymru fyw bywydau llawn cyffro drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ddysgu ar yr un pryd i barchu ei gilydd a phobl ledled y byd. Mae'r Urdd yn croesawu siaradwyr a dysgwyr Cymraeg.

Canolfan yr Urdd Pentre Ifan  
Felindre Farchog  
Crymych  
Sir Benfro  
SA41 3XE

Ffôn 01239 820317

Ffacs 01239 820317

[DyfedSion@urdd.org](mailto:DyfedSion@urdd.org) Gwefan: [www.urdd.org](http://www.urdd.org)

## GWEFANNAU GWYBODAETH

[www.electivehomeeducation.co.uk](http://www.electivehomeeducation.co.uk) - Ffôn: 0845 602 072

Mae'r wefan hon yn rhoi dolenni i wybodaeth ac adnoddau sydd wedi bod yn werthfawr i rieni sydd naill ai'n ystyried Addysg Ddewisol Gartref neu sydd eisoes yn gwneud hynny.

[www.educationotherwise.net](http://www.educationotherwise.net) - Ffôn: 0845 478 6345

Mae'r wefan hon yn darparu gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer teuluoedd sy'n addysgu gartref a'r rhai sy'n ystyried gwneud hynny am y tro cyntaf, gan gynnwys canllawiau ar addysg yn y cartref a'r gyfraith, AAA ac anabledau; taflenni y gellir eu lawrlwytho sy'n ymdrin â llawer o agweddau ar addysgu gartref; a chysylltiadau â grwpiau addysg gartref lleol ledled y DU. Os ydych newydd ddechrau addysgu eich plentyn/plant gartref efallai yr hoffech ddechrau drwy ddarllen y 'Cwestiynau Cyffredin'.

<http://www.he-special.org.uk/>

Gwefan rhestr bostio HE-Special-UK yw hon. Rydym yn grŵp o deuluoedd sy'n addysgu plant sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig ac anabledau gartref.

Nid yw ein plant yn mynychu'r ysgol, neu mewn rhai achosion, maent yn mynychu'r ysgol yn rhan-amser. Os ydych yn addysgu plentyn sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig neu anabledau gartref neu os ydych yn ystyried gwneud hynny, yna hoffwn eich gwahodd i ymuno â'n rhestr e-bost. Bydd croeso mawr i chi.

<http://www.heas.org.uk/> - Ffôn: 01707 371854

Elusen addysg gartref genedlaethol yn y DU yw HEAS. Ei gwaith yw rhoi cyngor a chymorth ymarferol i deuluoedd sy'n dymuno addysgu eu plant gartref yn hytrach na'u hanfon i'r ysgol. Mae HEAS yn cynnig gwybodaeth i addysgwyr yn y cartref, gan gynnwys cyngor ar ddeunyddiau addysgol, adnoddau, arholiadau TGAU,



anghenion addysgol arbennig, technoleg gwybodaeth, materion cyfreithiol a llunio cwricwlwm. Mae HEAS yn cyhoeddi nifer o daflenni a'r Llawlyfr ar Addysg Gartref. Hefyd, mae tanysgrifwyr HEAS yn cael Bwletin chwarterol HEAS, mynediad at y Llinell Gyngor, cysylltiadau â thanysgrifwyr eraill a cherdyn cofrestru HEAS (i deuluoedd sy'n addysgu eu plant gartref) sy'n rhoi pris mynediad gostyngol neu am ddim i rai amgueddfeydd a safleoedd o ddiddordeb.

[www.home-education.org.uk](http://www.home-education.org.uk)

Nod y wefan yw rhoi cymorth i bobl sy'n addysgu eu plant gartref neu sy'n ystyried gwneud hynny yn y DU a rhoi cymorth i addysgwyr gartref mewn gwledydd eraill drwy roi gwybodaeth ac adnoddau ar-lein i addysgwyr gartref.

Mae'n nodi ei bod yn darparu adnoddau ar-lein a gwybodaeth hawdd ei deall i addysgwyr gartref yn y DU ac y bydd yn ymateb i gwestiynau.

<http://edyourself.org/articles/EnglandandWales.php>

Gwaith Fiona Nicholson yw'r wefan hon. Mae Fiona wedi rhoi tystiolaeth i Bwyllgorau'r Llywodraeth ar bwnc addysg ddewisol gartref a gall roi dadansoddiad cyfredol a chlir o brif feysydd arfer a pholisi addysg ddewisol gartref yng Nghymru a Lloegr. Ceir gwefan gyffelyb ynglŷn ag addysg gartref ac anghenion arbennig yn Lloegr <http://www.ehe-sen.org.uk/>

<http://www.zoneseven.co.uk/>

Elusen Gofrestredig ydym ni, sydd wedi'i sefydlu er mwyn Cefnogi, Llywio a darparu gweithgareddau Addysgol i blant sy'n cael eu haddysgu gartref a'u teuluoedd. Rydym yn Ganolfan Agored Cymru Gydnyddedig ac, felly, gallwn gynnig cyfleoedd i achredu dysgu i'r rhai dros 11 oed. Wedi'i lleoli ym Mhontarddulais.

<http://www.waleshomeeducation.co.uk/>

Wales Home Education yw chwaer wefan New Foundations Home Education, sef grŵp addysg gartref Caerdydd ac Elective Home Education Wales. Nod y wefan hon yw dwyn ynghyd ddisgowntiau am ddim, y gyfraith fel y mae'n gymwys i Gymru a chymorth i deuluoedd ledled Cymru.

## GWEFANNAU SY'N DARPARU ADNODDAU

[www.edplace.com](http://www.edplace.com) - Ffôn: 02071 839818

Cwmni bach yw hwn, sydd â'r nod o rymuso rhieni yn addysgu eu plant a darparu adnoddau addysg i rieni. Mae'n ymwneud â Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnodau Allweddol 1 i 4, gan gyfuno adnoddau ar-lein ag adnoddau blaenllaw a grëwyd gan ein hathrawon. Mae'r cynnwys yn ddiddorol ac yn effeithiol i blant ac yn gyfredol yn ôl y Cwricwlwm.

[www.oxfordhomeschooling.co.uk](http://www.oxfordhomeschooling.co.uk)

Nodir bod gan y cwmni 18 mlynedd o brofiad o helpu unigolion ennill cymwysterau TGAU, TGAU rhyngwladol a Safon Uwch drwy addysg gartref. Mae sawl mil o unigolion yn astudio gyda nhw bob blwyddyn ac yn mynd yn eu blaen i ennill cymwysterau. Maent yn rhoi cryn bwyslais ar y cymorth a roddir i'r myfyrwyr ac yn cynnig cymorth rhagweithiol gan diwtoriaid. Mae pob cwrs wedi'i ddatblygu gan arbenigwyr yn eu maes, ac mae eu tîm o ddatblygwyr cwrs addysg yn y cartref yn sicrhau eu bod yn hawdd eu deall, yn symbylu plant ac yn effeithiol o ran helpu'ch plentyn i ddysgu.

[http://www.bbc.co.uk/schools/parents/home\\_education/](http://www.bbc.co.uk/schools/parents/home_education/)

Mae'r wefan hon yn darparu gemau addysgol, gweithgareddau a thafenni i helpu'ch plentyn ddysgu gartref ar gyfer plant 4-16 oed, gan gynnwys gweithgareddau hanes ac ati. Mae'n cynnwys blog i rieni sy'n rhoi cyngor a chyfle i rannu profiadau.

<http://home-ed.info/heresources.htm>

Mae'r tudalennau hyn yn rhestru amrywiaeth o adnoddau addysgol y gellir eu defnyddio i helpu'ch plant i ddysgu gartref, gan gynnwys cyflenwadau gwyddoniaeth a thechnoleg i'w defnyddio yn y cartref. Mae'n rhestru lle y gellir cael gafael ar adnoddau a gwefannau i'w defnyddio ar y we. Mae'n rhoi cyngor ar arholiadau TGAU i rai sy'n addysgu gartref.

[www.parentsintouch.co.uk](http://www.parentsintouch.co.uk)

Cynhelir y wefan hon gan gyn-bennaeth sydd wedi dysgu yn ysgolion y wladwriaeth ac mewn ysgolion annibynnol. Darperir taflenni gwaith am ddim ar y wefan, ynghyd ag enghreifftiau o bron 6000 o daflenni gwaith sydd ar gael i danysgrifwyr. Mae'n rhaid i chi gofrestru i lawrlwytho'r rhain. Mae llawer o adnoddau felly mae croeso i chi bori drwy'r wefan i weld rhagor.

<http://www.skillsheets.co.uk>

Mae SKILLSHEETS yn gyfres o 32 llyfr o daflenni gwaith y gellir eu llungopïo gyda'r nod o addysgu mathemateg a Saesneg sylfaenol mewn ffordd syml a dealladwy. Cânt eu defnyddio gan athrawon i wella sgiliau gweithredol oedolion a phobl ifanc hŷn yn eu harddegau. Mae'r taflenni gwaith hefyd ar gael ar ddisg. Ceir hyfforddiant Mathemateg ar-lein hefyd. Defnyddir SKILLSHEETS gan diwtoriaid preifat a lleoliadau prif ffrwd.

<http://www.inclusiontrust.org.uk/>

Mae gan Inclusion Trust hanes o ragoriaeth ym maes ymchwil addysgol. Mae gennym brofiad o gyflwyno Darpariaeth Amgen ers dros 12 mlynedd, drwy ein prif brosiect sef NotSchool. Mae Notschool yn ddewis gwahanol i addysg 'draddodiadol'. Maent yn defnyddio dull addysgegol wedi'i bersonoli er mwyn diwallu anghenion dysgu unigolion. Mae hyn yn cynnwys pobl ifanc sy'n dod o amgylchiadau heriol, sydd â phresenoldeb hynod o isel, ac sydd wedi datgysylltu'u hunain o Addysg Brif Ffrwd ac felly mewn perygl o ddod yn NEET.

Mae athrawon cymwys yn cynnig adborth effeithiol i lywio dysgu a datblygiad personol o fewn amgylchedd ar-lein sy'n cael ei fonitro'n agos er mwyn diogelu lles y bobl ifanc. Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i theilwra ar gyfer datblygu llythrennedd, rhifedd a strategaethau ar gyfer dysgu i ddysgu. Maent yn tracio ymgysylltiad, cynnydd a chyflawniad yn fanwl iawn, ac yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i ysgolion a rhieni.

<http://www.interhigh.co.uk/> - Ffôn: 01874 731118

Bydd y wefan hon yn eich cyflwyno i fath newydd o ysgol. Sefydlwyd InterHigh School ym mis Medi 2005 ac mae'n cynnig addysg ysgol uwchradd gyflawn ar y rhynggrwyd. Cyflwynir gwersi gan athrawon ac mae'r disgyblion yn mewngofnodi i ystafelloedd dosbarth rhithwir.

Mae popeth y byddech yn disgwyl ei weld mewn ysgol draddodiadol ar gael yma ond mae'r cyfan wedi'i leoli ar y we. Mae InterHigh School yn derbyn disgyblion drwy gydol y flwyddyn academaidd felly cwblhewch a anfonwch y Ffurflen Gofrestru os hoffech gael cyfle i ymuno ag InterHigh School.

<http://educationnow.gn.apc.org>

Cwmni ymchwil, ysgrifennu a chyhoeddi nid er elw; cwmni cydweithredol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu dulliau addysg mwy hyblyg a mwy o amrywiaeth addysgol.

<http://jcgq.org.uk>

Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ) – Cysylltwch i gael cyfeiriadau byrddau arholi.

<http://www.nec.ac.uk>

National Extension College – yn darparu dysgu agored drwy ei goleg gohebu. Mae'n cynnig cyrsiau TGAU a Safon Uwch, tiwtoriaid, llawlyfrau, canllawiau technegol a chanllawiau ymarferol.

[www.weshome.com](http://www.weshome.com)

World-wide Education Service – yn helpu teuluoedd gydag addysg plant oedran ysgol gynradd.

<http://www.warwick-district.org.uk?flexi>

Gwybodaeth gan Kate Oliver am addysgu hyblyg

<http://www.satellitesschool.org.uk>

Yn cynnig y system Satellite School Education – ystod o gyrsiau a gyflwynir dros y we fel pecyn cyflawn i ddiwallu anghenion addysgol y plant hynny sydd ddim yn derbyn addysg ysgol llawn amser am resymau amrywiol.

[www.educationotherwise.org/wales](http://www.educationotherwise.org/wales)

Cymorth uniongyrchol gan rai sy'n addysgu gartref yng Nghymru.

### GWERSLYFRAU DEFNYDDIOL

Mae'r rhain ar gael gan Amazon, W.H. Smiths, The Works a siopau llyfrau eraill:

Gwerslyfrau CGP

Llyfrau Adolygu Letts

Llyfrau Schofield & Sims

Llyfrau Adolygu Collins

Llyfrau Lonsdale

Help with Homework

### COLEGAU

Mae Coleg Ceredigion yn cynnig amrywiaeth gyffredinol eang o gymwysterau a fydd yn eich helpu, pha lwybr gyrfa bynnag a ddewiswch. Mae'n cynnig cyrsiau cyn TGAU a chysiau TGAU o 15 oed.

Ffôn: 01239 612032

Gwefan: [www.ceredigion.ac.uk](http://www.ceredigion.ac.uk)

Coleg Sir Benfro, Hwlfordd.

Yn cynnig Cyrsiau Pontio; Cyrsiau Ôl-16 a lleoliad ar gyfer sefyll arholiadau.

Ffôn: 01437 753000

Gwefan: [www.pembrokeshire.ac.uk](http://www.pembrokeshire.ac.uk)

### ENWAU CYSWLLT YN YR AWDURDOD LLEOL

Carolyn Waters (Ymgynghorydd Addysg Ddewisol Gartref yn Sir Benfro)

Ffôn: 01437 776614 / 07717 348534

Cheryl Loughlin (Rheolwr Addysg Ddewisol Gartref yn Sir Benfro) Ffôn:

01437 776549